# Polisi Cwlfertau Cyngor Gwynedd

Er mwyn cwlfertu cwrs dŵr neu wneud newid i gwlfat presennol mae'n rhaid cael Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin gan Gyngor Gwynedd o dan Adran 23 o'r Ddeddf Draenio Tir 1991. Os gaiff cwlfat ei adeiladu (neu ei newid) ar gwrs dŵr heb ganiatâd, gall Cyngor Gwynedd ystyried camau gorfodaeth briodol.

<u>Yn gyffredinol, mae Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu cwlfertu cyrsiau dŵr</u> oherwydd yr effaith ecolegol, cynnydd mewn risg llifogydd, rhesymau diogelwch a'r effaith esthetig. Mae cyrsiau dŵr yn nodweddion llinellol pwysig yn y tirwedd a dylid eu cynnal fel coridorau parhaus i wneud y mwyaf o'u manteision i gymdeithas.

Bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried pob cais i gwlfertu cwrs dŵr yn unigol ar sail risg. Byddwn ond yn cymeradwyo cwlfat os nad oes unrhyw ateb ymarferol rhesymol arall, neu os ydym yn credu y byddai'r effeithiau andwyol mor fach fel na ellid cyfiawnhau datrysiad arall mwy costus. Ymhob achos ble mae hi'n briodol i wneud hynny rhaid i'r ymgeiswyr ddarparu mesurau lliniaru digonol gan dderbyn perchnogaeth lwyr a chyfrifoldeb am waith cynnal a chadw yn y dyfodol.

Fel arfer, byddwn yn gwrthwynebu cynigion i adeiladu dros gwlfertau sy'n bodoli oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch, cynnydd yn y costau cynnal a chadw ac oherwydd y byddai hyn yn atal opsiynau yn y dyfodol i adfer y cwrs dŵr.

Ble fo'n briodol bydd Cyngor Gwynedd yn annog adfer cyrsiau dŵr wedi eu cwlfertu i fod yn sianeli agored.

## Rhesymau dros y Polisi

Mae'r Ddeddf Draenio Tir (1991) fel y diwygiwyd gan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010) yn gosod dyletswyddau cyffredinol a phenodol ar Gyngor Gwynedd mewn perthynas â chydsynio a gorfodi strwythurau mewn cwrs dŵr cyffredin. Rhaid i Gyngor Gwynedd gadw mewn cof y dyletswyddau hyn wrth gyflawni ei holl swyddogaethau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd a draenio tir. Hefyd, mae Deddf yr Amgylchedd (2016) yn gosod dyletswyddau ar Gyngor Gwynedd i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau.

O ganlyniad, mae Cyngor Gwynedd yn gyffredinol yn gwrthwynebu cwlfertu cyrsiau dwr oherwydd y sgil effeithiau andwyol sy'n debygol o godi. Mae'r sgil effeithiau yma yn cynnwys:

- colli a / neu effaith andwyol ar nodweddion amgylcheddol a chynefinoedd bywyd gwyllt;
- cynnydd mewn risg o lifogydd fel canlyniad i rwystr;
- effaith cynyddol o lifogydd;
- colli storfa llifddwr;
- anawsterau cynyddol wrth ddarparu cysylltiadau draenio;
- anawsterau mewn atgyweirio, cynnal ac amnewid cwlfertau;
- cynnydd mewn peryglon iechyd a diogelwch;
- cyfraddau ail-lenwi dŵr daear yn lleihau;
- anawsterau cynyddol wrth ganfod tarddiad llygredd ac wrth fonitro ansawdd dŵr.

**Eithriadau**

Mae'n bosib y bydd achosion lle na ellir osgoi sianelu (e.e. hyd byr at ddibenion mynediad neu lle mae priffyrdd yn croesi cyrsiau dŵr). Cyfrifoldeb y tirfeddiannwr / datblygwr yw dangos bod opsiynau amgen rhesymol (fel pontydd agored neu wyro cwrs dŵr) wedi'u hasesu a'u diystyru cyn ystyried cwlfat. Mewn achosion o'r fath, dylid cyfyngu'r hyd dan sylw gorau posib a dylid darparu manylion hydrolig ac amgylcheddol llawn, yn ogystal a chynnwys mesurau lliniaru priodol ar gyfer yr ardal all gael ei effeithio gan y gwaith cwlfatio.

Ble mae llwytho hydrolig neu flocio cwlfat yn peri perygl llifogydd i eiddo neu seilwaith, byddwn yn gofyn am dystiolaeth i arddangos bod capasiti y cwlfat a gynigir yn gallu ymdopi â digwyddiad afonol 1% (gan ychwanegu newid yn yr hinsawdd) yn unol ag arferion gorau.

Ble mae cais yn cael ei wneud i uwchraddio cwlfat presennol mewn ardal sydd eisoes wedi ei ddatblygu, rydym yn gwerthfawrogi fod priodweddau lleoliad yn gallu cyfyngu ar faint cwlfat newydd felly byddem yn gweithio gyda datblygwyr i ddod o hyd i ddatrysiad rhesymol sydd yn darparu'r gwelliannau mwyaf i'r amgylchedd ac o safbwynt perygl llifogydd.

Dylai gwaith lliniaru amgylcheddol ystyried, fel isafswm, fesurau i:

- ganiatáu llwybr i bysgod a llysywod allu symud yn barhaus drwy'r strwythurau arfaethedig,
- ganiatáu i ddeunydd gwely'r afon allu symud heb ei rwystro,
- ganiatáu mamaliaid torlannol bach allu symud yn barhaus ar hyd y cwrs dŵr.

Rhaid cytuno ar y cyfrifoldeb o ran cynnal a chadw a chlirio'r cwlfat a chyflwyno manylion y rhai fydd yn gyfrifol yn y dyfodol gyda'r cais am ganiatâd. Os nad oes trefniadau eraill mewn lle, cyfrifoldeb y tirfeddiannwr neu'r person sy'n berchen ar y cwlfat sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r cwlfat.

Dylai manylion mynediad addas ar gyfer cynnal a chadw eu cynnwys yn y cynllun.

Ni ddylid defnyddio sgriniau (*inlet screen)* oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol. Rhaid cyflwyno asesiad risg priodol gyda'r cais, i ddangos lle mae angen sgrin. Rhaid cytuno ar drefn cynnal a chadw ffurfiol cyn cymeradwyo.